CLECS O'R CLYBIAU

'O'u pennau i'w traed'

Triniaeth ar eu traed a'u pennau – dyna a fwynhawyd gan Glwb Gwawr Dinefwr yn ddiweddar. Cafwyd sesiwn Adweitheg (Reflexology) gyda Carys Morgan, ac ar gyfer noson arall buon nhw yn salon trin gwallt newydd 'Steil' yn Llandeilo. Cawsant gyngor ar steilio gwallt gan Huw a Craig ac ar goluro gan Llywela.

Clwb Gwawr newydd yn hedfan!

Dyma adar Clwb Gwawr newydd y Barcud, Tregaron, ar ôl iddynt fwynhau sesiwn Techneg Bowen gydag Anwen Biddulph Jones. Mae ganddynt raglen ddiddorol eleni: yn cynnwys Saethu Colomennod, Merlota i'r dafarn a diwrnod yn y rasys. Herwyr i deitl Clwb Gwawr Llanymddyfri fel y clwb mwyaf bywiog efallai...?!

Cymorth Cyntaf gyda'r Clydau

Dyma glwb newydd Sir Benfro yn ystod noson 'Cymorth Cyntaf'. Pob hwyl i'r cysylltydd, Gwenan, sy'n disgwyl ei hail blentyn yn fuan – doedd dim angen defnyddio'r sgiliau hynny arni ar y noson hon, o leia!

Gwin Blasus yn Y Fenni

Cafwyd noson hwylus gan aelodau Clwb Gwawr newydd Y Fenni yn ddiweddar wrth iddynt gynnal noson flasu gwin. Iechyd da, ferched!

Clwb Gwawr y Sgwâr, Dolgellau

Mae Clwb Gwawr y Sgwâr wedi cael blwyddyn gyffrous a chalendr bythgofiadwy. Roedd y parti Dolig yn noson hwyliog iawn. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Mic ar y Meic i ymuno â nhw ac i gynnal disgo, a chafwyd noson o gemau a charioci gwerth chweil.

Dathlu'r Deg

Merle Roberts, Irene Evans a Brenda Davies yn dathlu degfed pen-blwydd cangen Tonysguboriau, ger Llantrisant. Mae'n gangen wahanol i'r arfer gan mai pedair dysgwraig a'i sefydlodd – y tair uchod a'r ddiweddar Margaret Jones. Dysgwyr hefyd oedd yr aelodau cychwynnol i gyd ond bellach mae Cymry Cymraeg wedi ymuno â nhw i greu cangen weithgar a chryf. Roedd y cinio dathlu'n gyfle i ddiolch am ymroddiad y sylfaenwyr cynnar – Brenda yn ysgrifenyddes am ddeng mlynedd, Irene yn llywydd am dair a Merle, y llywydd presennol. Llongyfarchiadau a daliwch ati!